# Astudiaethau achos o fodelau cymorth gwahanol i wenynwyr newydd

**Astudiaeth Achos 1**

Sefydlwyd Gwenynwyr Swydd Amwythig yn 1894 ac mae gan y gymdeithas tua 400 o aelodau, yn bennaf yn rhanbarth canolog Swydd Amwythig, sef y sir fwyaf gwledig yn Lloegr, ac yn nhrefi mawr Amwythig a Telford. Felly, mae ein haelodaeth yn amrywiol ac yn ymestyn dros ardal ddaearyddol eang.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi wynebu nid yn unig y pandemig ond hefyd darfu mawr o ganlyniad i symud ein gweithrediad cyfan i safle newydd. Rydym wedi cael prydles 99 mlynedd ar safle gwenynfa a hyfforddiant newydd yn Amwythig, drwy Drefniant Trosglwyddo Asedau Cymunedol gan Gyngor Swydd Amwythig. Mae i'r safle awyddocâd hanesyddol am iddo fod yn ffynhonnell o ddŵr yfadwy i Amwythig rhwng 1552 a 1947. Fel y cyfryw, bu amodau ynghlwm wrtho, sef rhaid iddo fod ar agor i'r cyhoedd a rhaid adfer y ganolfan ymwelwyr a'r adeiladau hanesyddol ar y safle, a oedd mewn cyflwr gwael o ganlyniad i fandaliaeth. Rydym wedi codi symiau mawr o arian drwy fusnesau lleol, rhoddion gan yr aelodau, ac ymddiriedolaethau elusennol i adeiladu cyfleusterau newydd – ystafell hyfforddiant, cegin ac ystafell tynnu dŵr yn y tŷ pwmpio o'r oes Edwardaidd, maes parcio, gwenynfa, siop, storfeydd, perllan, dolydd a gerddi. Mae'n wir yn safle unigryw ac arbennig iawn.

Roedd yn rhaid rhoi'r gorau i hyfforddiant tra oeddem yn datblygu ein safle a thrwy gydol y pandemig ond, o 2022 ymlaen, rydym unwaith eto yn cynnal dau gwrs haf i ddechreuwyr (cyfanswm o 40 o hyfforddeion) a diwrnod rhagflas ym mis Medi. Rydym hefyd yn trefnu grwpiau astudio ar gyfer modiwlau Cymdeithas Gwenynwyr Prydain.



Cynigir ein cwrs i ddechreuwyr mewn dau fformat. Mae un yn golygu tair sesiwn ar ddydd Sadwrn sy'n cynnwys sesiynau yn yr ystafell ddosbarth a sesiynau ymarferol yn y wenynfa. Cyfres o chwe sesiwn gyda'r hwyr yn ystod yr haf yw'r llall. Mae gan bob cwrs dri thiwtor a sawl arddangoswr ar gyfer sesiynau ymarferol. Mae'r ddau gwrs yn costio £125 ac yn cynnwys aelodaeth gyswllt o Gymdeithas Gwenynwyr Swydd Amwythig, llyfr ar wenyna, sesiynau a mynediad at gyfleusterau'r gymdeithas fel y siop gydweithredol.

Am weddill y tymor, mae'r wenynfa ar agor a bydd y dechreuwyr a'u tiwtoriaid yn gweithio arni bob bore dydd Mercher a dydd Sadwrn – felly maen nhw'n galw heibio ac yn helpu, yn gwylio ac yn gofyn cwestiynau. Mae 20 o gychod gwenyn, sy'n cael eu rhedeg gan bedwar tîm gwenyn o dan arweiniad tiwtor/mentor. Rydym wedi llunio rhaglen o weithgareddau gwenyna i arddangos yr holl dechnegau, ond mae'n dibynnu ar y gwenyn a'r tywydd, felly nid ydyn ni bob amser yn cadw at y rhaglen a gynlluniwyd. Drwy hyn bydd y dechreuwyr yn chwarae rhan lawn fel aelodau'r gymdeithas ac yn cael profiad ymarferol o dan oruchwyliaeth. Maen nhw'n mwynhau'r cwmni ac yn meithrin cydberthnasau sydd, yn aml, yn para am flynyddoedd ac yn helpu i gadw eu gwenyn.

Mae ein tiwtoriaid hefyd yn fentoriaid yn y tymor hwy am eu bod yn cadw mewn cysylltiad â'u myfyrwyr. Pan fydd y dechreuwyr yn cael gwenyn, oddi wrth aelodau fel arfer, rydym yn teimlo y dylem eu helpu i'w gosod yn eu cwch gwenyn ac i sicrhau eu bod yn ymgartrefu. Yna, mae pob croes iddyn nhw gysylltu â ni. Bob blwyddyn mae grŵp yn rhannu grŵp WhatsApp â'r tiwtoriaid/mentoriaid i ofyn cwestiynau a cheisio cymorth gyda phroblemau y maent yn dod ar eu traws yn eu cychod gwenyn. Mae hyn wedi gweithio'n dda oherwydd y defnydd o ffotograffau – mae hyn yn ysgogi trafodaeth ac yn annog grwpiau cyfan o'r dechreuwyr i wneud sylwadau a thrafod. Drwy hyn mae dechreuwyr yn cael mwy o gyfleoedd i weld a datrys problemau gyda gwenyn nag y byddent yn eu cael drwy gadw eu gwenyn eu hunain yn unig, neu i weld beth dylent ei wneud/chwilio amdano wrth archwilio eu gwenyn.

Yn ystod yr ail dymor, rydym yn cynnig pedwar dosbarth arall ac ychydig o brofiad ymarferol er mwyn paratoi ein dechreuwyr ar gyfer yr Asesiad Sylfaenol a sicrhau nad oes neb yn teimlo'n amddifad.

Mae ein holl diwtoriaid wedi llwyddo yn yr Asesiad Sylfaenol fel gofyniad sylfaenol, sy'n rhoi hyder i ni ynglŷn â'r hyn rydym yn ei addysgu, ac maent hefyd wedi cael blynyddoedd lawer o brofiad. Mae ein gweithgarwch mentora yn canolbwyntio ar ein gwenynfa, sy'n rhoi canolfan i ni mewn ardal ddaearyddol fawr iawn, iawn. Mae mentoriaid yn meithrin cydberthnasau da, arferion gwenyna da a gwenynwyr hapus.

**Astudiaeth Achos 2**

Rydym wedi datblygu hyfforddiant i'n dechreuwyr sy'n addas ar gyfer ein Cymdeithas – efallai na fydd yn addas ar gyfer pob grŵp ond ar gyfer ein hardal fawr rydym yn ymgymryd â'r hyfforddiant dros ddwy flynedd yn yr ystafell ddosbarth a thrwy ddefnyddio dwy wenynfa addysgu. Dros ddwy flynedd, mae ein dechreuwyr yn cwblhau tri "thymor". Yna, cânt eu mentora mewn grwpiau, gan fentor profiadol yn eu gwenynfeydd eu hunain.

Rydym yn dechrau â thymor o theori ym mis Ionawr, sef chwe wythnos bob yn ail yn yr ystafell ddosbarth. Yna, o ganol mis Mai ymlaen, bydd wyth wythnos o sesiynau "ymarferol" yn y wenynfa. Gall ein dechreuwyr gael eu gwenyn oddi wrthon ni os dymunant neu gallant ddod o hyd i'w gwenyn eu hunain. Ym mis Ionawr y flwyddyn ganlynol maen nhw'n ôl am dymor chwe wythnos arall o sesiynau "ystafell

ddosbarth" bob yn ail wythnos. Yna, gallant gofrestru i fod yn rhan o gyfarfodydd grŵp â mentoriaid. Un o'n cryfderau mawr yw'r ffordd rydym yn mentora pobl - rhyw fath o fodel "is-grŵp" ydyw.

Mae hanes ein cymdeithas wedi dylanwadu ar yr hyn rydym yn gwneud pethau. Gwnaeth COVID newid sut roeddem yn gwneud pethau, ond do? Pan wnes i'r cwrs i Ddechreuwyr, cawsom diwtoriaid gwych yn y sesiynau ystafell ddosbarth a'r sesiynau ymarferol yn y wenynfa. Ond wedyn roeddech yn mynd â'ch gwenyn adref a dyna hi. Gallech deimlo eich bod chi ar eich pen eich hun. Rydym wedi addasu pethau fel na fydd angen i neb deimlo hynny mwyach.



Rydym yn dal i gyflwyno'r sesiynau a addysgir am eu bod wedi cael eu cynllunio'n ofalus gan diwtoriaid ag arbenigedd gwirioneddol ac rydym wedi cyflwyno tiwtoriaid newydd i addysgu'r rhain, wrth i eraill ymddeol. Roeddem hefyd yn awyddus iawn i barhau i wneud y sesiynau ymarferol am eu bod mor dda. Pan oeddwn i'n mynd i fy sesiynau ymarferol roedd grwpiau eithaf mawr yn ein gwenynfeydd. Deg neu ddeuddeg o bobl yn y grwpiau weithiau, nad oedd yn hwylus iawn i'r rhai byr fel minnau. Hefyd, roedd tuedd i'r dynion fod yn

Fe wna i hyn a'r llall..." Roeddwn i'n aml yn y cefn ac, a dweud y gwir, erbyn i mi fynd â fy ngwenyn adref doedd dim llawer o glem gen i am beth i'w wneud – felly cafodd hynny ddylanwad arna i, dwi'n meddwl.

Pan ddigwyddodd COVID, penderfynwyd cynnwys pedwar myfyriwr ar y mwyaf mewn grŵp ymarferol, gyda dau wrth y naill gwch gwenyn a'r ddau arall wrth y llall, a byddai'r tiwtor yn mynd yn ôl ac ymlaen rhyngddynt. Felly, byddai modd i'r myfyrwyr sefyll un i bob ochr i'r cwch gwenyn, a chadw pellter cymdeithasol. Ac roedden nhw wrth eu bodd. Roedden nhw ar ben eu digon. Roedden nhw'n cael llawer mwy o gyfle i drin y gwenyn ac roedden nhw'n cael llawer mwy o sylw gan y tiwtoriaid. Pan ddechreuon ni'r sesiynau ymarferol y tymor nesaf, fe wnes i gadw'r fformat o bedwar myfyriwr ond yna ychwanegu tiwtoriaid dan hyfforddiant. Felly, bydd tiwtor a thiwtor cynorthwyol neu diwtor dan hyfforddiant i bob pedwar myfyriwr. Felly, maen nhw'n cael sylw un i ddau ym mhob sesiwn. Felly, i bob 24 myfyriwr bydd 12 tiwtor.
..
Ar ôl iddynt gwblhau'r sesiynau ymarferol a'r ail gyfres o sesiynau yn yr ystafell ddosbarth rydym yn symud ymlaen at fentora. Rydym yn cymysgu'r dechreuwyr am ein bod yn eu rhoi mewn grwpiau daearyddol – felly maen nhw'n gallu cyfarfod â'i gilydd yn hawdd. Bydd pedwar o bobl a mentor mewn "grŵp mentora". Maen nhw'n cwrdd unwaith yr wythnos, yn ystod y tymor, yng ngwenynfeydd ei gilydd. Maen nhw'n mynd i wenynfa wahanol bob wythnos; byddan nhw'n mynd at Jac yn ystod wythnos un, Ffred yr wythnos nesaf a Siân, yn y drydedd wythnos ac ati. Fel arfer, maen nhw'n trefnu grŵp WhatsApp ac yn gallu cysylltu â'r mentor unrhyw bryd. Maen nhw'n dod ynghyd i ddatrys problemau.

Un o fanteision y “grwpiau mentora” yw eu bod yn cael mwy o brofiad nag y byddent yn ei gael pe baent yn gofalu am eu gwenyn eu hunain yn unig bob wythnos. Maen nhw'n gweld gwenynfeydd ei gilydd a sut mae popeth wedi cael ei osod. Ond maen nhw hefyd yn gweld sut mae pob un ohonynt yn ymdrin â phethau, felly maen nhw'n cael cipolwg gwahanol ar bethau. Mae'n beth da iddynt wneud eu penderfyniadau eu hunain a datblygu eu sgiliau gwenyna eu hunain. Rwy'n credu bod y broses o feithrin cydberthnasau a'r gefnogaeth sy'n datblygu o fewn eu grŵp mentora yn hynod werthfawr, am eu bod yn dysgu sut i ddibynnu ar aelodau eraill y grŵp, yn hytrach na'r “arbenigwr” yn unig. Felly, dyna pam y gwnaethom hyn. Rydym yn ceisio dwyn ynghyd fyfyrwyr sy'n dod o'r un ardal fwy neu lai a hefyd fentor sy'n agos iddynt. Felly mae elfen o logisteg yn perthyn i'r peth, ond mae hefyd yn golygu eu bod yn gallu cadw mewn cysylltiad cyhyd ag y dymunant. Ond mae'r gweithgarwch mentora strwythuredig bob wythnos yn tueddu i ddod i ben ar ôl yr ail neu'r trydydd tymor.

Nid yw pob dechreuwr yn derbyn y cynnig o fentor ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hynny ac mae eu hadborth bob amser yn gadarnhaol iawn. Roedd yr hen system gyfeillio rhwng gwenynwyr a ddefnyddiwyd gennym beth amser yn ôl wedi darfod. Mae hyn yn ffordd wahanol o wneud pethau ac mae'n addas i ni.

Mae bob amser yn heriol dod o hyd i ddigon o fentoriaid ond drwy ddefnyddio grwpiau mae angen llai ohonynt. Rydym yn disgwyl i fentoriaid lwyddo yn yr Asesiad Sylfaenol. Yn eithaf aml, bydd pobl sy'n barod i fod yn diwtor yn barod i fod yn fentor hefyd – pobl hael. Yr un bobl sy'n gwirfoddoli ac sy'n helpu i wneud y sioeau ac ati yw'r bobl hyn. Rwy'n holi am fentoriaid. Rwy'n tueddu i roi rhywbeth yng nghylchgrawn chwarterol y Gymdeithas ac yn gofyn i lawer o bobl wyneb yn wyneb am ei bod yn fwy anodd iddynt wrthod.

Cymdeithas fawr ydyn ni, gyda thua 300 o wenynwyr gweithredol (a bron 400 o aelodau i gyd) sy'n ymestyn dros ardal enfawr. Mae ein hardal yn wledig ar y cyfan ond ceir ardaloedd maestrefol a threfol hefyd. Mae'r dull hyfforddi hwn yn llwyddo am ein bod yn cyfyngu ar nifer y dechreuwyr i 24 y flwyddyn ac yn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth dda gennym i fagu eu hyder i wneud yr Asesiad Sylfaenol.

**Astudiaeth Achos 3**

Mae gennym tua 170 o aelodau ac rydym yn trefnu cwrs i ddechreuwyr sy'n denu eithaf tipyn o bobl – rhwng 12 a 40. Rydym wedi cynllunio rhaglen i ddechreuwyr yn ofalus ac mae'n cynnwys addysg, mentora a pharatoi ar gyfer yr Asesiad Sylfaenol. Mae'r ardal a gwmpesir gennym yn eithaf mawr felly rydym yn ceisio peidio â threfnu popeth mewn un man.

Mae ein dechreuwyr yn dechrau ag wyth sesiwn yn yr ystafell ddosbarth sy'n cynnwys gwenyna gydol y flwyddyn a hefyd sesiynau ymarferol ar wneud fframiau a chlefydau. Rydym yn gweithio'n unol â'r Maes Llafur Sylfaenol ac mae'r sesiwn ymarferol ar wneud fframiau yn ddifyr iawn. Mae'r cyfle i gyfarfod â'r Arolygydd Gwenyn yn gwneud y sesiwn ar glefydau yn wirioneddol ystyrlon i'r rhai sy'n cymryd rhan. Yn dilyn y sesiynau “ystafell



Ein tiwtoriaid yw'r bobl sy'n arwain y sesiynau (a fydd yn aml yn dod yn fentoriaid). Maen nhw'n cynnal y sesiynau hyn drwy ddefnyddio nodiadau canllaw er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn ymdrin â'r un pethau. Am ein bod wedi cael cymaint o ddechreuwyr yn y gorffennol, aeth yn amhosibl i gael y niferoedd hynny o bobl o amgylch y wenynfa, felly cawsom y syniad da o ofyn i wenynwyr profiadol a fyddai'n barod i gynnal y ddwy sesiwn ymarferol i ni - maen nhw'n rhan o'n tîm o diwtoriaid ac yn cynnal y sesiynau ymarferol yn eu gwenynfeydd gyda thri neu bedwar o ddechreuwyr yr un. Rydym am i'n dechreuwyr gael gweld pethau'n dda, adeiladu ar y cydberthnasau a ddechreuodd mewn sesiynau cynnar a chael cyfle i ofyn cymaint o gwestiynau ag y dymunant. Mewn ffordd, mae'n pontio i fentora.

Yn dilyn y ddwy sesiwn ymarferol, caiff pobl eu neilltuo i rywun yn yr ardal leol sy'n dod yn fentor arnynt. Mae'r gydberthynas yn wahanol i bob mentor, mewn gwirionedd. Mae rhai yn dibynnu ar y ffôn a WhatsApp ac mae eraill yn cynnal ymweliadau. Mae mentora yn rhoi cyfle i ddechreuwyr ofyn cwestiynau a gweld sesiynau arddangos pan fyddant yn dod ar draws techneg newydd, fel tynnu'r mêl, rheoli heidiau ac ati. Gall y mentor fynd i'r wenynfa mewn argyfwng neu roi cyngor o bell. Er enghraifft, rwy'n gwahodd fy menteion i ddod a chasglu heidiau os nad ydynt erioed wedi ymdrin â haid o'r blaen. Neu weithiau bydd y mentai yn mynd i safle'r mentor ac yn helpu ac yn gwneud pethau fel uno nythfeydd, er enghraifft. Mae'r gydberthynas rhwng y mentor a'r mentai yn canolbwyntio ar gamau cynnar gwenyna - am flwyddyn neu ddwy ond, mae'n fwy na hynny. Weithiau mae cydberthynas gydol oes yn datblygu. Mae ffynhonnell o gymorth bob amser ar gael i'r menteion.

Rydym yn dewis ein mentoriaid o blith gwirfoddolwyr sydd wedi mynd drwy'r Asesiad Sylfaenol ac sydd wedi cael o leiaf 3-4 blynedd o brofiad ac mae gennym ganllawiau sy'n amlinellu'r disgwyliad y byddant yn broffesiynol ac yn amyneddgar. Mae'r gwirfoddolwyr yn dewis eu hunain mewn gwirionedd - maen nhw'n gwybod bod angen ychydig o flynyddoedd o brofiad arnyn nhw.

Mae grŵp WhatsApp i'r Gymdeithas gyfan ac un ar wahân i'r dechreuwyr. Ar y dechrau, mae'r dechreuwyr mewn un grŵp lle rydym yn eu cynorthwyo ac maen nhw'n cynorthwyo ei gilydd ac yn gofyn llawer o gwestiynau sylfaenol. Wrth iddynt fagu profiad rydym yn uno'r ddau grŵp. Erbyn y Nadolig yn ystod eu blwyddyn gyntaf bydd y dechreuwyr yn rhan o grŵp WhatsApp cyffredinol y Gymdeithas. Rydym hefyd yn trefnu cyfeillion gwenyna- pobl sy'n cynnig cymorth pan fydd gwenynwyr i ffwrdd neu'n sâl. Ni fydd y cymorth i bobl sy'n dechrau gwenyna yn dod i ben ar ôl eu haf cyntaf. Yn ystod y flwyddyn ar ôl y cwrs i ddechreuwyr rydym yn cynnal pedair sesiwn drwy Zoom a sesiwn ymarferol i roi'r hyder iddynt wneud yr Asesiad

Sylfaenol. Yn wir, rydym newydd gyflwyno'r tystysgrifau i bobl a lwyddodd yn eu Hasesiad Sylfaenol y llynedd.

Mae mentora yn bwysig o ran helpu pobl i ddatrys eu problemau eu hunain. Weithiau, bydd angen pâr arall o lygaid i'ch helpu i weld beth sy'n digwydd. Mae'n hawdd anghofio cymaint o ddirgelwch y gall cwch gwenyn fod os nad ydych yn gyfarwydd ag ef ac os nad ydych yn wybodus. Rydym yn barod i'w mentora nes eu bod yn teimlo'n ddigon hyderus i wneud yr Asesiad Sylfaenol a thu hwnt. Cyfathrebu da a chymorth pan fydd ei angen yw'r peth mwyaf defnyddiol- rydym yn creu mentoriaid y dyfodol.

**Astudiaeth Achos 4**

Fel cymdeithas fach, prin yw ein hadnoddau o ran gwenynwyr profiadol ar gyfer gweithgareddau fel addysg a mentora: o'r 150 o aelodau mae tua 40 yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r gangen. Rwyf yn un o'r bobl sy'n arwain gweithgareddau addysg a mentora ac rwy'n gweithio gyda chymdeithasau eraill i ddatblygu fy addysg fy hun.

Mae gennym batrwm, o ran mentora, rydym am i ddechreuwyr newydd ei ddilyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dilyn ein cwrs hyfforddiant deg wythnos yn ystod y gaeaf, sy'n cynnwys naw sesiwn a addysgir gyda'r hwyr. Mae'n gorffen â sesiwn adeiladu cwch gwenyn yn ein gwenynfa. Fel arfer, mae tua 20 o bobl y flwyddyn yn dilyn y cwrs. Rydym yn ceisio cynnig mentora penodol i ddechreuwyr am flwyddyn.



Mae gennym ddwy wenynfa: Gwenynfa'r Gymdeithas a Gwenynfa benodol i Ddechreuwyr sy'n cynnwys hyd at naw lle i ddechreuwyr gadw eu gwenyn yn ystod eu blwyddyn gyntaf ac yn y wenynfa hon maen nhw'n cael cymorth mentora bob wythnos. Yn dilyn y cwrs i Ddechreuwyr, byddwn yn gwerthu cnewyllyn o wenyn, a fagwyd y flwyddyn flaenorol yng ngwenynfa'r gangen. Trefnir mentor ar gyfer y bobl sy'n gosod eu gwenyn yn y Wenynfa i Ddechreuwyr ac maen nhw'n cyfarfod â'u mentor bob bore dydd Sadwrn yn ystod y tymor. Maen nhw'n cael sesiwn o tua awr lle mae'r mentor yn mynd dros yr holl bethau a gwmpaswyd yn y cwrs

Gall y bobl sy'n dewis peidio â chadw eu gwenyn yn y Wenynfa i Ddechreuwyr, neu bobl na wnaethant ymuno â'n cwrs, gadw eu gwenyn gartref. Nid ydynt yn ymuno â sesiynau mentora ar fore dydd Sadwrn ond mae croeso iddynt ddod i'r sesiynau hyfforddiant o amgylch Gwenynfa'r Gymdeithas ar brynhawn dydd Sadwrn. Rydym yn eu hannog i ddod i mewn a gweithio ar y cychod gwenyn hynny gyda ni, a

byddwn yn eu tywys drwy dechnegau a sgiliau. Felly, bydd pobl yn dod i'r sesiwn ar brynhawn dydd Sadwrn ac yn dweud “o'r gorau, rwy'n edrych ar fy ngwenyn ac wedi dod o hyd i hyn” a byddwn yn siarad am y sefyllfa ac efallai y bydd yr un peth yn digwydd yn un o'n cychod gwenyn ni. Rydym yn eu tywys drwy'r math o bethau y byddech yn anelu at eu gwneud. Er nad ydym yn ymgymryd â mentora ffurfiol mewn gwenynfeydd yng nghartrefi pobl, gallant gael cyngor yn ystod y sesiynau o amgylch Gwenynfa'r Gymdeithas, dros y ffôn neu drwy e-bost. Ar lefel anffurfiol, rydym yn cynnig cyngor ar safleoedd gwenynfeydd pan fydd pobl yn dechrau. Efallai y bydd ymddiriedolwyr profiadol sy'n helpu gyda'r cwrs i Ddechreuwyr yn cynnig mynd i weld y safle arfaethedig a helpu gydag un neu ddau o archwiliadau.

Nid ydym yn anghofio am ein dechreuwyr y flwyddyn ganlynol. Yn amlwg, erbyn hynny maen nhw wedi meithrin cydberthynas rhwng mentor a mentai ac maen nhw'n cadw mewn cysylltiad ac yn parhau i gael cymorth, ond nid ar yr un lefel â'r flwyddyn gyntaf; rydym yn eu harwain i fod yn annibynnol.

Rydym yn neilltuo mentor i unrhyw ddechreuwr sy'n awyddus i gael un yn y Wenynfa i Ddechreuwyr, felly yr her o hyd yw cynyddu nifer y bobl sy'n gwirfoddoli i fod yn fentor ac sy'n gymwys i fod yn fentor. Mae'n dipyn o ymrwymiad: bob bore dydd Sadwrn a phrynhawn dydd Sadwrn drwy gydol y tymor. Mae rhyw 8-12 o bobl yn cynnig bob blwyddyn. Nid oes digon o bobl nac amser i ymrwymo i fentora mewn gwenynfeydd yng nghartrefi pobl, a all fod yn filltiroedd i ffwrdd.

Yr her arall yw hyrwyddo ymarfer cyson, am y bydd gan fentoriaid syniadau ychydig yn wahanol o ran sut maen nhw'n gwneud pethau. Rydym yn disgwyl y bydd pob un o'n mentoriaid wedi llwyddo yn Asesiad Sylfaenol Cymdeithas Gwenynwyr Prydain, sy'n helpu i sicrhau ein bod yn anelu at arferion gorau'r Gymdeithas. Mae pob mentor yn ceisio annog dechreuwyr i wneud yr Asesiad Sylfaenol yn eu hail flwyddyn. Mae tua 5 i 10 o bobl yn llwyddo yn yr Asesiad Sylfaenol bob blwyddyn. Byddai'n dda gennym pe bai amser i gynnal cyfarfod mawr i baratoi mentoriaid ar ddechrau'r tymor, er mwyn safoni allbwn, ond nid ydym wedi llwyddo i wneud hyn eto.

Her arall i'n rhaglen hyfforddiant a mentora yw bod pobl yn dod aton ni sydd wedi prynu gwenyn heb wybod dim amdanynt, ond maen nhw'n disgwyl i ni roi help llaw. Rydym yn gweld cryn dipyn o “wenyn cyfnod cloi”. Nid ydym am weld sefyllfa lle mae pobl yn cael problemau gyda gwenyn yn heidio neu glefydau, felly rydym yn ceisio eu helpu a chynnig cyngor, ond adnoddau prin sydd gennym i wneud hyn.

Mae ein cwrs i ddechreuwyr yn codi tâl o tua £100 sy'n talu am gost trefnu'r cwrs, llenyddiaeth i bob dechreuwr, a mentora drwy gydol y flwyddyn. Rydym am helpu pobl i wybod beth maen nhw'n ei wneud, trin gwenyn yn dda, atal clefydau a gwir ddeall beth mae bod yn wenynwr cyfrifol yn ei olygu. Ar ôl dysgu'r pethau sylfaenol, cânt wneud fel y mynnont, ond maen nhw'n gwybod bod cyfrifoldebau penodol ar y rhai sy'n cadw gwenyn. Mae gwenyna yn effeithio ar bobl eraill, felly mae angen i wenynwyr ofalu am wenyn yn briodol. Ac, wrth gwrs, ceir rhwymedigaethau cyfreithiol.

Rydym am drosglwyddo gwybodaeth felly dyna pam rydym yn rhoi hyfforddiant ac yn mentora. Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r tîm sy'n gwneud hynny ac mae'n golygu fy

mod i'n ceisio sicrhau bod fy ngwybodaeth yn gyfredol. Rydym yn cynnal arolygon o foddhad, wrth gwrs, ond mae ein llwyddiant yn dibynnu mewn gwirionedd ar gadw mewn cysylltiad â'n gwenynwyr. Maen nhw'n rhan o rwydwaith anffurfiol o gymorth a thrafodaeth amser maith ar ôl eu blynyddoedd cynnar.

**Astudiaeth Achos 5**

Dechreuodd fy niddordeb mewn gwenyna 10 mlynedd yn ôl ar ôl bod ar gwrs a gynhaliwyd gan gymdeithas gwenynwyr mewn rhan arall o'r rhanbarth. Er bod hwn yn ddiddorol, cwrs chwe mis o ddarlithoedd oedd fwy neu lai, gyda dim ond dwy sesiwn mewn gwenynfa. Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, doeddwn i ddim yn teimlo'n barod o gwbl i ddechrau cadw gwenyn a doedd dim cymorth ffurfiol parhaus ar gael i'r gwenynwr newydd.

O ganlyniad i hyn, fe wnes i gofrestru â chwrs gwenynwyr ar Ynys Môn. Roedd hwn yn gwrs mwy cytbwys dros gyfnod o ddwy flynedd a oedd yn cynnwys cyflwyniadau a sesiynau mewn gwenynfa, ac mae'n dal felly. Cynhelir nifer o sesiynau mewn gwenynfa sydd, dros y cyfnod o ddwy flynedd, yn cwmpasu sesiynau o fis Ebrill i fis Medi, sy'n sicrhau bod y gwenynwr newydd yn gweld y nythfa ar bob cam datblygu. Ym mis Gorffennaf yn ystod y flwyddyn gyntaf mae'r dechreuwr yn cael cyfle i brynu nythfa gnewyllol a fagwyd yn lleol. Mae'r cwrs hefyd yn cynnig mentoriaid i'r gwenynwr newydd.

Roedd fy mentoriaid i yn gwpl a oedd wedi bod yn cadw gwenyn ers amser maith ac a oedd yn helpu i redeg y cwrs – mae eu hymwneud wedi bod yn amhrisiadwy wrth i mi ddatblygu a magu hyder fel gwenynwr. Diben mentora ar y cwrs ar Ynys Môn yw cynnig ffynhonnell hwylus o gyngor a chymorth ymarferol pan fydd ei angen yn ystod dwy flynedd y cwrs a thu hwnt. Mae hefyd yn helpu i integreiddio'r gwenynwyr i fod yn rhan o'r gymdeithas ac yn meithrin cysylltiadau cymdeithasol ymhlith gwenynwyr ar yr ynys.

Y dasg gyntaf y mae mentor yn ei chyflawni o bosibl yw ymweld â safle gwenynfa bosibl gwenynwyr newydd a thrafod sut i'w gosod. Mae mentoriaid hefyd yn helpu i fagu nythfeydd newydd i'r dechreuwyr, ond yn ystod yr ail flwyddyn roeddwn i'n teimlo bod y cymorth wir wedi dechrau. Roedd cael rhywun wrth law i drafod sut i ymdrin â nythfa a datrys problemau yn hollbwysig o ran datblygu fy hyder a fy ngalluoedd ar y cam hwn ac roeddwn i'n teimlo bod hynny wedi gwneud y gwahaniaeth wrth gymryd y camau cyntaf tuag at fod yn wenynwr cymwys. Yr ethos o'r dechrau oedd nad oedd y mentor yno i gadw eich gwenyn i chi ond i'ch tywys i ddysgu sut i ddeall beth oedd yn digwydd yn y nythfa a'r opsiynau oedd ar gael i chi wrth reoli'r nythfa ar bob cam.

Er bod fy mentoriaid innau'n brofiadol iawn, y teimlad mewn gwirionedd yn y cynllun hyfforddiant yw nad felly y dylai fod bob amser ac mae llawer o'r mentoriaid yn mynd drwy'r ychydig flynyddoedd cyntaf o wenyna – y fantais yw bod y mentoriaid hyn yn aml yn deall yr anawsterau y mae gwenynwr newydd yn eu hwynebu yn well

na gwenynwr sydd wedi cael blynyddoedd o brofiad a gallant fod yn haws mynd atynt i ddechreuwyr. Byddant hefyd wedi cwblhau'r cwrs gwenyna yn fwy diweddar ac mae eu gwybodaeth am gadw gwenyn yn aml yn fwy cyfredol! Mae strwythur pyramid i fentora ar yr ynys a bydd gwenynwyr mwy profiadol y mae mentoriaid newydd, yn eu tro, yn gallu troi atynt am gymorth.



Mae gen i gefndir ymarferol mewn addysg i oedolion ac mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol hefyd i fy helpu i fentora. Mae'r broses yn gallu bod yn foddhaol iawn i'r mentor a'r mentai fel ei gilydd a gall arwain at gyfeillgarwch cefnogol yn y gymdeithas sy'n para. Rwy'n dal mewn cysylltiad â llawer o'r gwenynwyr rwyf wedi eu mentora dros y pum mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd, rwy'n mentora rhwng tri a phump o wenynwyr newydd bob blwyddyn – fel arfer yn yr un rhan ddaearyddol o'r gymdeithas lle rwyf wedi fy lleoli ac rwyf wedi mentora gwenynwyr newydd yn yr un pentref yn ddiweddar, sef cwpl sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar (ac wedi etifeddu gwenyn ynghyd â'r tŷ) ac un arall a ddechreuodd gadw gwenyn yn ystod camau diweddarach beichiogrwydd, felly heriau gwahanol ym mhob sefyllfa.

O ddechrau mentora chwe blynedd yn ôl, rwyf bellach yn helpu i gyflwyno'r cwrs hyfforddiant, yn cefnogi mentoriaid newydd, yn helpu i drefnu digwyddiadau i'r gymdeithas ac yn aelod o bwyllgor y gymdeithas. Efallai fod hwn yn ymddangos yn allosodiad ond mae mentora yn gam pwysig i ddatblygu cysylltiadau sy'n cynnwys aelodau newydd yn strwythurau'r gymdeithas ac yn helpu pobl i integreiddio. Mae diwrnodau arddangos yn aml yn cynnwys hyfforddwyr, mentoriaid a menteion i gyd yn bresennol gyda'i gilydd ac yn siarad â'r cyhoedd gyda'r pwyslais bod y gwenynwyr newydd yn ymgymryd â rôl weithredol wrth sôn am gadw gwenyn – mae'r ffaith bod eu mentoriaid yno yn eu helpu i wneud hyn ac yn datblygu eu gwybodaeth.

Mae rhai o'n mentoriaid yn cymryd rhan yn y prosesau arholi, rhai ddim ac rydym o'r farn mai dyna'r cydbwysedd gorau – nid yw arholiadau gwenyna i bawb ac nid yw ansawdd y gwenynwr yn annatod gysylltiedig â nifer yr arholiadau y mae'n eu sefyll. Rydym yn anelu at sicrhau'r cydbwysedd gorau ac yn ein profiad ni daw hynny drwy wenynwyr brwdfrydig, gwybodus a dynamig, ni waeth faint o arholiadau y maent wedi llwyddo ynddynt. Rydym yn annog mentoriaid i ddod i arsylwi ar y sesiynau addysgu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn parhau'n gyson ac rydyn ni bob amser yn dweud wrth y gwenynwyr newydd ein bod yn addysgu un ffordd o gadw gwenyn sy'n gweithio'n dda ar Ynys Môn, ond nad dyna'r unig ffordd!

DRAFT